# Pecyn Ymgyrchydd Taliad Tanwydd Gaeaf

Diolch yn fawr iawn am lawrlwytho'r pecyn hwn. Rydyn ni'n edrych 'mlaen i weithio gyda chi er mwyn achub y Taliad Tanwydd Gaeaf, a chefnogi pensiynwyr sy'n wynebu heriau anodd!

## Cynnwys


**Pam rydyn ni'n ymgyrchu ........ 2**

**Sut gallwch chi helpu? ........ 3**

**Ysgrifennu at y Canghellor a'ch Aelod Seneddol ........ 5**

**Cwrdd â'ch Aelod Seneddol ........ 6**

**Atodiad 1: Paratoi ar gyfer cyfarfod ........ 8**

**Atodiad 2: Taflenni deiseb ........ 9**

# Pam rydyn ni'n ymgyrchu

**Mae llywodraeth y DU yn bwriadu dod a'r Taliadau Tanwydd Gaeaf i ben y gaeaf hwn, yn ddi-rybydd, heb unrhyw fesurau cyfadferol i ddiogelu pensiynwyr hŷn sy'n ei chael hi'n anodd. Mae hwn yn benderfyniad anghywir.**

**Rydym yn gweithio ochr yn ochr ag Age UK, a'n partneriaid eraill, Age Yr Alban ac Age Gogledd Iwerddon.**

**Rydyn ni eisiau bod Llywodraeth y DU yn ail-feddwl eu cynlluniau ynghylch y Taliad Tanwydd Gaeaf.**

Ni fydd miloedd o bensiynwyr yn derbyn y swm o tua £300, gan olygu bydd llai o arian ganddynt i fedru talu eu biliau.

Credwn y bydd miloedd o bensiynwyr yng Nghymru yn gorfod ymdopi heb yr arian, er bod gwir angen y gefnogaeth arnynt. Bydd y bobl sy'n cael trafferth talu eu biliau ynni yn cael eu heffeithio'n ddifrifol gan y golled. Rydyn ni'n poeni am dri grŵp allweddol:

- Y bobl sydd ar eu colled oherwydd bod eu hincwm cymedrol ychydig yn rhy uchel iddynt fod yn gymwys, fel arfer oherwydd bod ganddynt bensiwn galwedigaethol bach. Mae llawer o'r bobl hyn yn fenywod.
- Pobl sydd angen defnyddio llawer o ynni oherwydd anabledd neu salwch, a/neu sy'n byw mewn cartrefi sy'n defnyddio ynni'n aneffeithlon ac sy'n costio llawer o arian i'w gwresogi.
- Rhwng 70,000 ac 80,000 o bensiynwyr yng Nghymru nad ydynt yn derbyn y Credyd Pensiwn er eu bod nhw'n gymwys oherwydd nad ydynt yn ei hawlio. Mae sicrhau bod pobl yn hawlio'r Credyd Pensiwn yn anodd ac yn broblem fawr. Tua thraean o'r holl bobl sy'n medru hawlio'r Credyd Pensiwn sy'n gwneud hynny'n gyson dros nifer o flynyddoedd.

Dim ond tri mis o rybudd sydd wedi bod am y newid yma/ Byddai pobl hŷn wedi disgwyl cael yr arian yma eleni. Yn syml, nid oes digon o amser i bobl hŷn fedru gwneud cynlluniau arall a pharatoi. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y byddant yn annog pobl sy'n medru hawlio Credyd Pensiwn i wneud hynny, ond bydd hyn yn cymryd amser felly bydd llawer o bobl ar eu colled eleni.

I wneud pethau'n waeth, nid dyma'r unig gefnogaeth gyda chostau ynni sy'n diflannu eleni sy'n golygu y gallai fod gan bensiynwyr £600 yn llai'r gaeaf hwn er bod biliau ynni'n parhau i fod yn ddrud.

Mae hyn oherwydd eu bod hefyd yn colli:

- Taliad costau byw - mae'r taliad wedi darparu cefnogaeth gyda chostau ynni dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae pob pensiynwr wedi derbyn hyd at £300 ar ben eu Taliad Tanwydd

Gaeaf yn ystod y ddau aeaf diwethaf. Gwnaeth y bobl sy'n ennill incwm isel neu bobl sy'n byw gydag anabledd dderbyn fwy o arian.

Mae'r toriadau hyn yn digwydd yng Nghymru a Lloegr. Yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae penderfyniadau am y taliad wedi'u datganoli, felly nid oes ateb clir eto. Ond ni fydd Llywodraeth y DU bellach yn darparu'r arian i dalu am yr hyn y mae pensiynwyr yn y gwledydd hynny yn ei dderbyn nawr. Felly bydd yn rhaid i lywodraethau'r Alban a Gogledd Iwerddon ystyried eu hopsiynau ynghylch y taliad.

**Dylai Llywodraeth y DU ail-ystyried y newidiadau arfaethedig i'r Taliad Tanwydd Gaeaf.**

**Ymunwch â ni er mwyn diogelu pensiynwyr sy'n wynebu heriau anodd y gaeaf hwn.**

# Sut gallwch chi helpu?

- **Tasg pum munud:** Arwyddwch y ddeiseb os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny. Ewch i **www.ageuk.org.uk/winterfuelpayment** neu argraffwch y fersiwn bapur (ar ddiwedd y ddogfen hon). Gallwch wneud cais am y fersiwn bapur drwy ysgrifennu at FREEPOST Age UK Campaigns.
- **Tasg ddeng munud:** Argraffwch y ddeiseb bapur a gofynnwch i'ch ffrindiau, teulu, a'ch cydweithwyr i'w llofnodi! Gallwch hefyd anfon e-bost at eich ffrindiau a'ch teulu yn gofyn iddynt lofnodi'r ddeiseb. Dychwelwch y ddogfen atom am ddim: FREEPOST Age UK Campaigns (nid oes angen stamp!).
- **Tasg awr:** Ysgrifennwch lythyr at y Canghellor a'ch Aelod Seneddol i ddweud wrthyn nhw sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio arnoch chi neu rywun sy'n bwysig i chi – ac i ofyn iddyn nhw ailystyried.
- Efallai y bydd hi'n bosib i chi gwrdd â'ch Aelod Seneddol i siarad am yr hyn y gallant ei wneud i helpu ac i ofyn iddyn nhw gefnogi'r ymgyrch!

## Templed o e-bost

Helo

Rwy'n poeni'n fawr am y newyddion bod Llywodraeth y DU yn bwriadu cael gwared ar y Taliad Tanwydd Gaeaf, gan effeithio ar bobl nad ydynt yn derbyn Credyd Pensiwn. Mae Age Cymru yn credu y bydd miloedd o bensiynwyr yng Nghymru sydd wir angen yr arian ar eu colled.

Mae cael gwared ar y Taliad Tanwydd Gaeaf, heb rybudd digonol a heb fesurau amgen i ddiogelu pensiynwyr tlawd a bregus, yn anghywir.

Rydw i wedi arwyddo'r ddeiseb er mwyn gwrthwynebu'r cynlluniau, ac i ddiogelu pensiynwyr sy'n ei chael hi'n anodd. **A wnewch chi ei lofnodi hefyd**. Dim ond 2 funud sydd angen. Diolch

# Ysgrifennu at y Canghellor a'ch Aelod Seneddol

Ysgrifennwch lythyr neu e-bost at y Canghellor, Rachel Reeves, a'ch Aelod Seneddol. Po fwyaf personol yw eich llythyr, po fwyaf y bydd modd iddynt weld yr effaith go iawn mae eu penderfyniad yn ei gael ar bobl.

**Ysgrifennwch at y Canghellor,** Rachel Reeves, drwy e-bostio **ministers@hmtreasury.gsi.gov.uk** neu'r Uned Gohebiaeth ac Ymholi, 1 Horse Guards Parade, Llundain, SW1A 2HQ.

**Dysgwch pwy yw eich Aelod Seneddol** a dewch o hyd i'w cyfeiriad e-bost ar wefan Senedd y DU (**http://members.parliament.uk/FindYourMP**). Gallwch anfon neges at eich Aelod Seneddol yma: Tŷ'r Cyffredin, Llundain, SW1A 0AA.

## Awgrymiadau ar gyfer eich llythyr

- **Mae llythyron byr** yn fwy effeithiol wrth ysgrifennu at wleidyddion oherwydd eu bod yn brysur iawn.
- **Ysgrifennwch linell ar dop eich llythyr** yn egluro pam rydych chi'n ysgrifennu atynt, a beth hoffech iddyn nhw ei wneud.
- **Byddwch yn gwrtais -** ceisiwch fod yn niwtral yn wleidyddol.
- **Rhannwch eich profiadau personol** am y Taliad Tanwydd Gaeaf, a beth fydd effaith cael gwared ar y taliad arnoch chi neu'ch anwyliaid.
- **Cofiwch egluro** beth hoffech chi iddyn nhw wneud:
  **Eich Aelod Seneddol**: gallech ofyn iddyn nhw ysgrifennu at y Canghellor, gan ofyn iddynt ddiogelu'r bobl a fydd yn wynebu heriau anodd heb y Taliad Tanwydd Gaeaf.

  **Y Canghellor**: gofynnwch iddi gynnal Taliad Tanwydd Gaeaf.

# Cwrdd â’ch Aelod Seneddol

Mae cyfarfod wyneb yn wyneb ag Aelodau Seneddol yn ffordd wych o ddangos pa mor bwysig yw ymgyrch Taliad Tanwydd y Gaeaf i chi. Mae'n eich galluogi i siarad yn uniongyrchol â nhw, a rhoi cyfle iddynt ystyried y materion rydych chi'n eu trafod. Mae'n ffordd bwerus iawn o adeiladu perthynas gyda'ch Aelod Seneddol, ac o ddylanwadu ar sut maen nhw'n ymateb i benderfyniadau polisi - er enghraifft, Taliad Tanwydd y Gaeaf.

Mae'r canllaw hwn yn nodi sut i fynd ati i gwrdd â'ch Aelod Seneddol, a'r hyn yr hoffech iddynt ei wneud.

### 1. Trefnu cyfarfod

Os ydych chi eisiau cwrdd â'ch Aelod Seneddol i drafod Taliad Tanwydd Gaeaf, y peth cyntaf y mae angen i chi ei wneud yw cysylltu â nhw i drefnu cyfarfod neu edrych i weld a oes ganddynt wybodaeth ar eu gwefan am gyfleoedd i gwrdd â nhw.

Dysgwch pwy yw eich Aelod Seneddol, eu manylion cyswllt, a'u gwefan ar wefan Senedd y DU (**members.parliament.uk/FindYourMP**).

Os nad ydych yn defnyddio'r rhyngrwyd, gallwch ysgrifennu atynt gan ddefnyddio'r cyfeiriad (enw), Tŷ'r Cyffredin, Llundain, SW1A 0AA. Gallwch hefyd ffonio switsfwrdd Tŷ'r Cyffredin (020 7219 3000). Gallwch ofyn i siarad â'ch Aelod Seneddol, a byddant yn eich cysylltu chi - mae'n annhebygol y bydd yr Aelod Seneddol yn ateb yr alwad. Mae'n debygol y byddwch yn siarad ag aelod o staff neu'n gorfod gadael neges ar beiriant ateb.

Peidiwch â digalonni os bydd ychydig wythnosau'n mynd heibio cyn i chi dderbyn ateb i'ch e-bost/llythyr! Mae aelodau seneddol a'u staff yn derbyn llawer o lythyron. Os nad ydych wedi clywed wrth yr Aelod Seneddol ar ôl ychydig wythnosau, gwnewch alwad ffôn cwrtais.

Wrth drefnu'r cyfarfod, byddwch yn glir ac yn gryno. Efallai y bydd angen i chi fod yn hyblyg ynglŷn â phryd rydych chi'n cwrdd ac mae'n debygol y byddwch chi'n gallu cwrdd am 15-30 munud.

Gan ei bod yn awr yn gyfnod Toriad yr Haf, mae'n debygol y bydd eich Aelod Seneddol yn yr etholaeth yn weddol aml, er mae'n debygol y byddan nhw'n brysur iawn yn barod! Mae bob amser yn well trefnu cyfarfod ymlaen llaw i sicrhau bod gan yr Aelod Seneddol ddigon o amser i siarad â chi.

### 2. Rhowch wybod i ni!

Os byddwch yn llwyddo i drefnu cyfarfod, rhowch wybod i ni (**campaigns@ageuk.org.uk** neu FREEPOST Age UK Campaigns) a byddwn ni'n ceisio rhannu ystadegau lleol gyda chi cyn y cyfarfod!

### 3. Paratoi ar gyfer eich cyfarfod

Cofiwch y tri pheth hyn cyn cwrdd gyda'ch Aelod Seneddol.

Yn gyntaf, peidiwch â bod yn nerfus! Dydyn nhw yn disgwyl i chi fod yn arbenigwr polisi. Maen nhw eisiau clywed am eich profiad personol. Efallai y bydd ganddyn nhw adnoddau defnyddiol i'w rhannu gyda chi.

Yn ail, ceisiwch fod yn niwtral yn wleidyddol. Ceisiwch fod yn gwrtais a chanolbwyntio ar y Taliad Tanwydd Gaeaf. Hyd yn oed os nad yw'ch Aelod Seneddol yn cytuno â chi am y Taliad Tanwydd Gaeaf, efallai y byddwn nhw'n penderfynu gweithredu ar eich rhan.

Yn drydydd, meddyliwch am yr hyn rydych chi am ei ddweud wrth eich Aelod Seneddol, ac os oes unrhyw beth hoffech chi ofyn.

Os ydych chi eisiau, gallwch argraffu ein briff i Aelodau Seneddol er mwyn rhannu'r briff gyda'ch Aelod Seneddol. Rhowch gipolwg ar y briff cyn y cyfarfod. Gallwch ei lawrlwytho yma: **ageuk.org.uk/wfpbriefing**.

**Dyma rai pethau gallwch chi drafod:**

- **Eich profiad personol chi o'r Taliad Tanwydd Gaeaf,** a sut y bydd colli'r taliad yn effeithio arnoch chi (neu ffrind/teulu)
- **Mae Age Cymru'n credu y bydd miloedd o bensiynwyr yn cael eu heffeithio'n ddifrifol gan y cynlluniau hyn.** Dyma bobl ar incwm isel sy'n methu hawlio Credyd Pensiwn, pobl sydd ag anghenion ynni uchel oherwydd anabledd/salwch, a 70,000 i 80,000 sydd ddim yn hawlio'r Credyd Pensiwn er eu bod yn gymwys.
- **Mae cynnal prawf modd heb unrhyw rybudd, heb gynnig iawndal, yng nghyd-destun Taliadau Tanwydd Gaeaf yn bolisi gwael.** Mae'n bolisi a fydd, o bosib, yn peryglu iechyd a chyllid miliynau o bobl hŷn y gaeaf hwn, gan greu effaith ofnadwy arnyn nhw ac ar y GIG.

**Gofynnwch i'ch Aelod Seneddol i:**

- Ysgrifennu at y Canghellor er mwyn gofyn iddi ailystyried.
- Cysylltu ag Age UK er mwyn dysgu sut y gallant helpu (anfon e-bost at **publicaffairs@ageuk.org.uk**)
- Gofyn cwestiwn yn y Senedd am yr effaith y bydd hyn yn ei chael.

### 4. Ar ôl y cyfarfod

**Cadwch mewn cysylltiad â'ch Aelod Seneddol!** Ysgrifennwch atynt er mwyn diolch iddynt am gyfarfod â chi, ac i ailadrodd unrhyw beth wnaethoch chi gytuno i wneud.

**Cadwch mewn cysylltiad!** Anfonwch e-bost atom yn sôn am eich cyfarfod: **campaigns@ageuk.org.uk** neu ffoniwch ni ar 020 3033 0568. Os byddwch chi'n rhoi galwad ffôn i ni, efallai ni fydd hi'n bosib i ni ateb. Gadewch neges, a byddwn ni'n rhoi galwad nôl i chi.

Os oes gennych chi gyfrifau cyfryngau cymdeithasol, gallwch hefyd eu tagio er mwyn diolch iddynt am gwrdd â chi!

**Pob lwc – a chadwch mewn cysylltiad!**

# Atodiad 1: Paratoi ar gyfer cyfarfod

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod:

Nodiadau cyfarfod:

Pwyntiau allweddol i'w trafod::

- **Eich profiad personol chi o'r Taliad Tanwydd Gaeaf,** a sut y bydd colli'r taliad yn effeithio arnoch chi (neu ffrind/teulu)
- **Mae Age Cymru yn credu y bydd miloedd o bensiynwyr yng Nghymru yn cael eu taro'n ddifrifol gan y toriad hwn.** Mae'r rhain yn bobl ar incwm isel sy'n colli allan ar Gredyd Pensiwn, y rhai ag anghenion ynni uchel oherwydd anabledd/salwch a'r 70,000 i 80,000 o bensiynwyr nad ydynt yn derbyn y Credyd Pensiwn y maent yn gymwys i'w gael.
- **Mae cynnal prawf modd heb unrhyw rybudd, heb gynnig iawndal, yng nghyd-destun Taliadau Tanwydd Gaeaf yn bolisi gwael.** Mae'n bolisi a fydd, o bosib, yn peryglu iechyd a chyllid miliynau o bobl hŷn y gaeaf hwn, gan greu effaith ofnadwy arnyn nhw ac ar y GIG.

Gofynnwch i'ch Aelod Seneddol wneud y canlynol:

- Ysgrifennu at y Canghellor er mwyn gofyn iddi ailystyried.
- Cysylltu ag Age UK er mwyn dysgu sut y gallant helpu (anfon e-bost at **publicaffairs@ageuk.org.uk**)
- Gofyn cwestiwn yn y Senedd am yr effaith y bydd hyn yn ei chael.

Camau y cytunwyd arnynt:

Help struggling pensioners

# Save the Winter Fuel Payment

Winter Fuel Payment is being cut for those not on Pension Credit or a few other means tested benefits. This will impact millions of struggling pensioners this winter - those just missing out on pension credit, those with high energy bills due to disability, and the 800,000 who don't receive pension credit they're eligible for.

**The Government must think again.**

| **First name** | **Surname** | **Postcode** | **If you have an email address** please use BLOCK CAPITALS<br>*Please provide if you're happy to be emailed about Age UK's campaigns** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Please send back to **Freepost, Age UK Campaigns**

*We will never sell your data and we promise to keep your details safe and secure. You can change your mind at any time by writing to the address above, phoning **0800 169 8787** or emailing **contact@ageuk.org.uk**

Name of organisation/local Age UK

Age UK is a registered charity, number 1128267.

| First name | Surname | Postcode | **If you have an email address** please use BLOCK CAPITALS<br>*Please provide if you're happy to be emailed about Age UK's campaigns** |
| --- | --- | --- | --- |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Age UK**
7th Floor
One America Square
17 Crosswall
London EC3N 2LB

The Age UK network includes the charity, its trading companies and national partners (Age Cymru, Age Scotland and Age NI). We also work closely with local Age UKs. For further details on how your data is used and stored by the Age UK network go to www.ageuk.org.uk/help/privacy-policy. Age UK is a registered charity in England and Wales (1128267).